Senedd Cymru Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru MJW 12 Ymateb gan y Cwnsler Cyffredinol – Llywodraeth Cymru	Welsh Parliament Legislation, Justice and Constitution Committee Making Justice work in Wales Response from the Counsel General – Welsh Government

Rwyf yn falch iawn bod cylch gwaith eich Pwyllgor bellach wedi'i ehangu i gynnwys cyfrifoldeb dros fater pwysig cyfiawnder ac rwyf yn cymeradwyo'r Pwyllgor am fynd ati i weithio yn y maes mor gyflym drwy gynnal yr ymchwiliad "Gwneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru".

Mae'r Pwyllgor wedi nodi telerau eang iawn ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Ymdriniwyd â llawer o'r tir hwn gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd a hyderaf nad yw'r Pwyllgor yn ceisio ailadrodd gwaith y Comisiwn, sy'n awdurdodol ac yn eang ei gwmpas.

Roedd casgliadau'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn glir ac yn ddiamwys, sef bod pobl Cymru yn cael eu siomi gan y system gyfiawnder yn ei chyflwr presennol. Safbwynt hirsefydlog Llywodraeth Cymru yw y dylai pwerau'r sefydliadau datganoledig fod yn seiliedig ar set gydlynol o gyfrifoldebau. Dylai cyfiawnder fod wrth graidd Llywodraeth a bod yn gyson â pholisïau sydd eisoes wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â barn y Comisiwn bod angen diwygio'r system gyfiawnder yn sylweddol.

Byddwch yn gwybod bod y Prif Weinidog wedi symud yn gyflym i ymateb i argymhelliad y Comisiwn ar gyfer arweinyddiaeth glir ac atebol ym maes cyfiawnder yn Llywodraeth Cymru

ac fe sefydlodd is-bwyllgor o'r Cabinet i ddarparu trosolwg Gweinidogol ar faterion cyfiawnder ar draws y Llywodraeth. Er yr effeithir yn anochel ar y broses o ddiwygio'r system gyfiawnder wrth inni ymateb i bandemig y coronafeirws, mae mynd ar drywydd amcanion adroddiad y Comisiwn, serch hynny, yn parhau'n ymrwymiad clir gan y Llywodraeth. At hynny, mae'r pandemig wedi rhoi mwy o amlygrwydd i ddatganoli ac yn benodol wedi tanlinellu'r rhyng-ddibyniaethau rhwng cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'r rhannau hynny o'r system gyfiawnder sy'n parhau i fod wedi'u cadw yn ôl.

Yn y cyfnod hwn o gasglu tystiolaeth ar gyfer eich ymchwiliad, hoffwn dynnu sylw'r pwyllgor at y dystiolaeth a gyhoeddwyd isod:

1. Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfres o dystiolaeth i'r Comisiwn ar gyfiawnder yng Nghymru a oedd yn nodi safbwynt y Llywodraeth mewn perthynas â chyfiawnder yng Nghymru yn fanwl.

Cyhoeddwyd ein tystiolaeth mewn cyfres o ddogfennau yn ymdrin â phynciau penodol ac maent ar gael ar-lein. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddarparu dolenni i Glerc y Pwyllgor.

2. Datganiad Llafar y Prif Weinidog ar 29 Tachwedd 2019 a Chofnod cysylltiedig y Trafodion.

3. Cofnod y Trafodion ar gyfer y ddadl o dan arweiniad y Llywodraeth a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2020

Byddwn wrth gwrs yn hapus i ymgysylltu â'r Pwyllgor ymhellach wrth i chi ymgymryd â rhan 2 o'ch ymchwiliad.

Annex

Written evidence of the Welsh Government to the Commission on Justice in Wales:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-06/Submission-from-welsh-government-en.pdf

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-06/Submission-from-welsh-government-cy.pdf

Supplementary evidence of the Welsh Government to the Commission on Justice in Wales:

The Government and Laws in Wales Bill

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/Evidence%20to%20The%20Commission%20-%20The%20Government%20and%20Law%20in%20Wales%20Bill_1.pdf

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/Tystiolaeth%20i%27r%20Comisiwn%20-%20Bil%20Llywodraeth%20a%27r%20Gyfraith%20yng%20Nghymru.pdf

Supplementary evidence of the Welsh Government to the Commission on Justice in Wales:

Education and Employment

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-08/supplementary-evidence-welsh-government-commission-justice-in-wales-education-employment.pdf

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-08/tystiolaeth-atodol-llywodraeth-cymru-ir-comisiwn-ar-gyfiawnder-yng-nghymru-addysg-a-chyflogaeth.pdf

Supplementary evidence of the Welsh Government to the Commission on Justice in Wales:

Family Justice

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-08/supplementary-evidence-welsh-government-commission-justice-in-wales-family-justice.pdf

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-08/tystiolaeth-atodol-llywodraeth-cymru-ir-comisiwn-ar-gyfiawnder-yng-nghymru-cyfiawnder-teuluol.pdf

Supplementary evidence of the Welsh Government to the Commission on Justice in Wales:

Law and the Constitution

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-08/supplementary-evidence-welsh-government-commission-justice-in-wales-law-and-constitution.pdf

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-08/tystiolaeth-atodol-llywodraeth-cymru-ir-comisiwn-ar-gyfiawnder-yng-nghymru-y-gyfraith-ar-cyfansoddiad.pdf

Supplementary evidence of the Welsh Government to the Commission on Justice in Wales:

The role of Legal Services and the Legal Profession in the Welsh Economy

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-08/supplementary-evidence-welsh-government-commission-justice-in-wales-the-role-of-legal-services-and-legal-profession-in-welsh-economy.pdf

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-08/tystiolaeth-atodol-llywodraeth-cymru-ir-comisiwn-ar-gyfiawnder-yng-nghymru-rol-gwasanaethau-cyfreithiol-ar-proffesiwn-cyfreithiol-yn-economi-cymru.pdf

Supplementary evidence from the Cabinet Secretary for Local Government and Communities:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-08/supplementary-paper-commission-justice-in-wales-welsh-government-cabinet-secretary-for-local-government-and-communities.pdf

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-08/papur-atodol-comisiwn-ar-gyfiawnder-yng-nghymru-llywodraeth-cymru-ysgrifennydd-cabinet-dros-lywodraeth-leol-a-chymunedau.pdf

Supplementary evidence from the Leader of the House:

Access to justice and human rights

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/Supplementary-evidence-to-the-justice-commission-from-welsh-government-access-to-justice-and-human-rights.pdf
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/Supplementary-evidence-to-the-justice-commission-from-welsh-government-access-to-justice-and-human-rights.pdf

Supplementary evidence from the Minister for Health and Social Services:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/Submission%20from%20the%20Minister%20for%20Health%20and%20Social%20Services%20%28Eng%29.pdf

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/Submission%20from%20the%20Minister%20for%20Health%20and%20Social%20Services%20%28Wel%29.pdf